# CBSP Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Y Cynghorydd Colin Davies

Ward: Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr

Plaid: Llafur Cymru/Welsh Labour

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym **mis Ebrill 2025.** Fe'i darparwyd er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac i ddim diben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Swyddogaeth a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr ar y 5ed o Fai 2022 a hwn yw fy nhymor cyntaf. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o swyddogaethau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i nifer o Bwyllgorau:

- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles (Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar bwnc 2 gynt)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai) (Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar bwnc 3 gynt)
- Is-bwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 (B) ac Is-bwyllgor Trwyddedu B
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned

Rwyf wedi cynorthwyo trigolion fy Ward gydag amrywiol faterion ac wedi codi nifer o gwestiynau etholwyr yn ffurfiol yn y Cyngor a gyda chyrff eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â phroblemau eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eu datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy swydd fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi bod o gymorth i sicrhau fy mod yn dal i ddiweddaru fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor ac ar fy Ward.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am fy swyddogaethau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddefnyddio'r ddolen hon; Councillor Colin Davies

**Gweithgaredd yn yr Etholaeth**

Yn ogystal â bod yn Gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rwyf hefyd yn Gynghorydd Cymuned yn Nhrelales ac yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Maes yr Haul.

Ceir dolenni cyswllt i'r ddau yn:

Laleston Community Council

Maes yr Haul Primary School

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi cynorthwyo nifer o etholwyr gyda chwestiynau ynghylch gwaith y Cyngor a datblygiadau lleol posibl. Er enghraifft, ynglŷn â chyflogaeth, datblygu'r sector gwirfoddol, chwarae a lles, a diogelwch cymunedol, yn enwedig o ran edrych i mewn i gyfleoedd posibl i godi arian.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf yn aelod o Undeb y GMB ac yn rhoi cymorth i aelodau'r Undeb gyda phroblemau yn ymwneud â chyflogaeth.

**Y Cynghorydd Colin Davies** **Dyddiad: 7/7/25**